Strategaeth Dyfodol Amrywiol 2026-2029

Ein Huchelgais

Mae Strategaeth Dyfodol Amrywiol 2026-2029 Partneriaeth AGA y Brifysgol Agored yn darparu'r fframwaith ar gyfer hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant ac ymdeimlad o berthyn ledled ein partneriaeth gyfan-Gymru.

Mae'r strategaeth yn cyd-fynd â:

1. Chenhadaeth y Brifysgol Agored i fod yn agored i bobl, lleoedd, dulliau a syniadau.
2. Cynllun Cydraddoldeb y Brifysgol Agored.
3. Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag amrywiaeth yn y gweithlu.
4. Uchelgeisiau Cymru Wrth-hiliol.

Strategaeth Dyfodol Amrywiol 2026-2029

Mae Dyfodol Amrywiol yn fframwaith strategol Partneriaeth AGA y Brifysgol Agored ar gyfer hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant ac ymdeimlad o berthyn ar draws Addysg Gychwynnol Athrawon yng Nghymru**.**

Wrth wraidd y strategaeth mae ymrwymiad i sicrhau bod pob athro dan hyfforddiant yn gallu ffynnu, bod pob dysgwr yn gallu gweld ei hun yn cael ei gynrychioli a'i werthfawrogi o fewn addysg a bod cenedlaethau'r dyfodol yn elwa ar weithlu addysgu sy'n adlewyrchu amrywiaeth y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu.

Mae'r fframwaith yn darparu dull cydlynol o wreiddio arferion cynhwysol ar draws pob agwedd ar weithgarwch y bartneriaeth, gan ddod â mynediad ehangach, arferion gwrth-hiliol, lles myfyrwyr, datblygu cwricwlwm cynhwysol ac ymgysylltu â chymunedau ynghyd o fewn un weledigaeth strategol.

Mae Dyfodol Amrywiol yn cydnabod nad yw amrywiaeth a chynhwysiant yn fentrau ar wahân, ond yn elfennau sylfaenol o addysg athrawon o safon. Drwy gydweithio â myfyrwyr, ysgolion, staff a chymunedau, ein nod yw dileu rhwystrau i gyfranogiad, cryfhau cynrychiolaeth a datblygu athrawon sydd wedi'u paratoi i gefnogi pob dysgwr i lwyddo.

Pam Mae Hyn yn Bwysig

Bydd yr athrawon rydym yn eu haddysgu heddiw yn siapio profiadau, dyheadau a chanlyniadau cenedlaethau'r dyfodol o ddysgwyr ledled Cymru.

Mae Dyfodol Amrywiol yn seiliedig ar y gred y dylai pob athro dan hyfforddiant gael cyfleoedd teg i lwyddo, y dylai pob plentyn a pherson ifanc deimlo ei fod yn cael ei weld, ei werthfawrogi a'i gynrychioli o fewn addysg ac y dylai pob ysgol elwa ar weithlu sy'n adlewyrchu ac yn deall y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu.

Mae'r fframwaith yn cydnabod bod amrywiaeth yn cwmpasu ystod eang o hunaniaethau, cefndiroedd a phrofiadau. Caiff ein dull ei lywio gan y naw nodwedd warchodedig a ddiffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010, gan gydnabod hefyd y gall unigolion brofi rhwystrau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol, profiad o ofal, cefndir

ieithyddol, lleoliad daearyddol a ffactorau eraill sy'n ymwneud â mynediad ehangach.

Er y gall rhai camau gweithredu o fewn y strategaeth ganolbwyntio ar grwpiau sydd ar hyn o bryd wedi'u tangynrychioli yn y proffesiwn addysgu, gan gynnwys cymunedau'r Mwyafrif Byd-eang, mae Dyfodol Amrywiol wedi'i gynllunio i greu amgylchedd mwy cynhwysol a theg i bawb. Y nod pennaf yw datblygu athrawon sy'n gallu cefnogi ac ysbrydoli pob dysgwr, gan gyfrannu at system addysg decach a mwy cynrychioliadol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Ein Hegwyddorion Arweiniol

Dysgwyr yn Gyntaf: Rydym yn gosod athrawon dan hyfforddiant, y dysgwyr y maent yn eu haddysgu, a'r cenedlaethau yn y dyfodol y byddant yn eu dylanwadu wrth galon ein penderfyniadau. Dylai pob gweithred o fewn Dyfodol Amrywiol gyfrannu at wella cyfranogiad, cynrychiolaeth, ymdeimlad o berthyn a chanlyniadau dysgwyr ledled Cymru.

Tegwch: Rydym yn cydnabod nad yw pawb yn dechrau o'r un man cychwyn ac y gall fod angen gwahanol fathau o gymorth er mwyn sicrhau canlyniadau teg.

Cynhwysiant ac Ymdeimlad o Berthyn: Rydym yn creu amgylcheddau lle mae unigolion yn teimlo eu bod yn cael eu parchu, eu gwerthfawrogi ac yn gallu cymryd rhan yn llawn.

Cynrychiolaeth: Rydym yn ceisio sicrhau bod lleisiau, hunaniaethau a phrofiadau amrywiol yn weladwy drwy ein gweithgarwch recriwtio, ein cwricwlwm, ein partneriaethau a'n prosesau penderfynu.

Partneriaeth a Chydweithio: Cyflawnir newid ystyrlon drwy gydweithio rhwng myfyrwyr, ysgolion, cymunedau a rhanddeiliaid ehangach.

Ein Strategaeth



Ein Hymrwymiad

Rydym wedi ymrwymo i ehangu cyfranogiad, cefnogi llwyddiant myfyrwyr a chreu llwybrau i mewn i'r proffesiwn addysgu i bobl o bob cefndir. Trwy Dyfodol Amrywiol, byddwn yn hyrwyddo cynhwysiant, cryfhau lleisiau amrywiol a sicrhau bod ein harferion yn deg, yn hygyrch ac yn ymatebol.

Drwy weithio gyda myfyrwyr, ysgolion a chymunedau, byddwn yn cyfrannu at broffesiwn addysgu mwy amrywiol a chynhwysol yng Nghymru.

Sut Byddwn yn Mesur Llwyddiant

Bydd llwyddiant y strategaeth hon yn cael ei fesur drwy gyfuniad o dystiolaeth feintiol ac ansoddol. Byddwn yn ystyried data cyfranogiad ac ymgeiswyr, cyfraddau cadw a chwblhau myfyrwyr, cynnydd i yrfaoedd addysgu, Mesurau profiad myfyrwyr, dangosyddion llesiant, ymgysylltiad â gweithgareddau partneriaeth.

Yn ogystal â'r mesurau hyn, byddwn yn casglu adborth gan fyfyrwyr drwy grwpiau llysgennad Senedd Fach, ynghyd ag ysgolion a rhanddeiliaid eraill, er mwyn deall y cyd-destun ehangach ar lefel y system ac adnabod cyfleoedd ar gyfer gwelliant.